

Cofnodion cyfarfod 5/11/2020

Presennol: Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Rhys Evans, Sue Davies, Dilys Evans, Tony Parry, Alun Price, John Caradog Williams, Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc).

1. **Croesawyd** pawb gan y Maer a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Carol Rowlands, Eluned Jones a Sharon Wyn Evans.

2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Hydref 1^{af} 2020.

4. **Materion y Clerc:**

i. Sedd Wag - ystyriwyd enwebiadau a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu.

ii. HistoryPoints: Adroddodd Alun Price fod QR ar y Gofgolofn Coffa, a diolchwyd iddo am ei waith cysylltu ar hyn. Wrth ymhelaethu ar y wefan a dangos lluniau o'r QR, cyfeiriodd yntau at y cymorth a dderbyniodd oddi wrth Trefor Jones a Mr Nuttall, Llandderfel. Dywedodd y Maer ei fod wedi talu'r anfoneb i HistoryPoints allan o Gronfa'r Maer. <https://historypoints.org/index.php?page=bala-war-memorial>

Diolchwyd i John Caradog Williams am baratoi'r safle unwaith eto eleni ar gyfer Sul y Cofio.

Diolchwyd i'r Maer am gynrychioli'r Cyngor yn y seremoni gyfyngedig a drefnir eleni; bydd tair torch yn cael eu gosod ar ran y Cyngor a Chyngor Gwynedd.

iii. Cyfyngiad 40mya yn Llanycil - Derbyniwyd ymateb gan Fyd Mary Jones yn mynegi eu bod yn fodlon iawn bod ymwelwyr i'r fynwent yn defnyddio eu maes parcio. Dywedont ymhellach eu bod hwythau yn parhau i drafod a oes modd rhwystro gweryllwyr gwyllt ac eraill rhag parcio yno, tra ar yr un pryd caniatáu i ymwelwyr i Fyd Mary Jones a'r fynwent allu cael mynediad. Cytunwyd i aros am ymateb parthed camera cyflymder a thrafod y mater mewn cyfarfod eto. Cytunwyd i ofyn am gymorth Aelodau Senedd Llywodraeth Cymru ar y mater.

Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth GanBwyll am or-yrru ar Heol Ffrydan ac roedd yr ystadegau'n cadarnhau'r angen am fesurau i arafu'r trafndiaeth. Derbyniwyd ymateb gan Reolwr Traffig a Gwasanaethau yn mynegi mai mater i'r Heddlu ydyw goryrru, ac yn cyfeirio at fwrriad Llywodraeth Cymru yn y dyfodol agos i leihau cyflymder o fewn trefi i 20mya. Addawodd trefnu asesiad ar gyfer gosod goleuadau fflachio yno. Dywedodd Dilwyn Morgan ei fod wedi cael trafodaeth addawol gyda'r Adran berthnasol yng Nghyngor Gwynedd. Cytunodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan unwaith i bwysu am weithredu buan ar hyn. Dywedodd y Maer fod Llywodraethwyr Ysgol Godre'r Berwyn hefyd wedi gohebu ar y mater.

5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd. Mae'n parhau i edrych mewn i oblygiadau cael parc sglefrio. Dywedodd y bydd mwy o swyddogion cymunedol yn cael eu hapwyntio i weithio ac i gynghori'n lleol. Mae llawer o brysurdeb wedi bod

gyda grantiau cefnogaeth, a gwaith gyda phlant bregus. Roedd yn awyddus fod pob cefnogaeth yn cael ei roi i fusnesau a siopau'r dref yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig.

6. Adroddiadau Cyngorwyr:

- i. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Derbyniwyd adroddiad Tony Parry a gyfeiriodd at y disgwyl y bydd caniatâd cynllunio yn cyrraedd yn fuan. Gobeithir cychwyn ar y gwaith adeiladu yn yr haf, a gwaith ar y coed ar ddiwedd y tymor nythu yn yr hydref. Y bwriad ydyw tarfu cyn lleied â phosib.
- ii. **Cynhadledd Colli Llais Colli Bywyd:** Adroddodd Susan Wyn Davies iddi fynychu cynhadledd ar lein ar Tachwedd 2il a gafodd ei drefnu gan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Roedd yna 4 siaradwyr a thrafodwyd strategaethau, ystadegau a pholisi ar sut i leihau defnydd o gyffuriau (heroin) ar ein strydoedd ac am fuddion triniaethau dan oruchwyliaeth (sef triniaethau gyda cymorth diamorphine hydrochloride (heroin cyfreithiol, *HAT heroin assisted treatment*). Hefyd trafodwyd y budd o ystafelloedd triniaeth a chwistrellu. Er yn ddiddorol, nid oedd yn gweld hyn yn berthnasol i'r Bala.

7. **Is-bwyllgorau:** Gan nad oedd wedi bod yn bosib gwireddu syniadau'r is-bwyllgor Nadolig, gofynnwyd i'r Clerc geisio cael hyd i gynifer o oleuadau a phosib o dan yr amgylchiadau, ac i gael trwydded gan Lywodraeth Cymru i'w gosod yn y Stryd Fawr. Mae'r Cyngor yn hybu 2 gystadleuaeth addurno.

- i. **Materion Cynllunio: NP5/53/579** 60 Heol y Domen, Y Bala: cynyddu uchder yr adeilad i ddau lawr ac amnewid y to. Cytunwyd i gymeradwyo'r cais, gan fynegi'n garedig y dymuniad i'r ymgeisydd drafod gyda'r cymdogion, os nad ydyw hynny wedi digwydd erbyn hyn.
- ii. **NP5/53/LB197A Neuadd y Cyfnod, High Street, Bala. LL23 7PG** Newidiadau i'r cwrt i gefn yr eiddo i ddarparu mynediad gysgodol, man eistedd allanol, gwelliannau i'r man parcio presennol a amnewid drysau a ffenestri adeilad allanol; amgau mesurydd nwy. Cymeradwywyd.

8. Materion Cyllid:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- ii. Cymeradwywyd talu'r anfonebau a ddaeth i law: SLCC £46.67 (1/3 o'r ffi); gwaith cynnal £960; Lês y Domen £1; Gwasanaeth Cyfrifo Cyngor Gwynedd £252; Clerc (mis Hydref).

Trafodwyd anfoneb am £8,000 ar gyfer cynnal y toiledau cyhoeddus. Dywedodd y Clerc nad oedd wedi cael ymateb i'r ymholiad am yr anfoneb hwn (gan y bu'r toiledau ar gau am gyfnod), nac i'r ymholiad am ardoll parcio a gytunodd Cyngor Gwynedd i'w gyfrannu i Gyngor Tref Y Bala ers rai blynyddoedd. Cytunwyd i beidio a thalu'r anfoneb hwn ar hyn o bryd, a diolchwyd i'r Cyngorydd Dilwyn Morgan am gynnig gwneud ymholiadau pellach ar y mater.

- iii. **Gohebiaeth:** E-bostiwyd: cylchlythron Parc Cenedlaethol Eryri; cylchlythyr Cyfoeth Naturiol Cymru; adroddiad Un Llais Cymru ar gyfarfodydd dros y we

9. **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad Alun Price a gyfeiriodd at rôl Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf yn dal les Canolfan Integredig Plant ar safle'r hen Ysgol Beuno Sant. Bydd y gwaith yn cychwyn cyn hir ar y newidiadau mewnol sydd angen eu gwneud.
10. **Dyddiad a lleoliad** y cyfarfod nesaf: 10/12/20 am 7.00 pm - cyfrwng /lleoliad yn dibynnu ar amgylchiadau Covid 19. Dyddiad is-bwyllgor cyllid – i'w drefnu ym mis Rhagfyr.